*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 1457 (Cy.130) (C.83)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2010

*Gwnaed - - - - 19 Mai 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 161(3) a (4) a 170(3) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008(**1**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2010.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Y diwrnod penodedig**

**2.** 21 Mai 2010 yw'r diwrnod penodedig i ddarpariaethau canlynol Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 ddod i rym—

(a) adran 140, i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan 2 o Atodlen 12;

(b) adran 166, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r diddymiadau a grybwyllir ym mharagraff (ch);

(c) Rhan 2 o Atodlen 12; ac

(ch) y diddymiadau sydd wedi'u cynnwys yn Rhan 4 o Atodlen 15 sy'n ymwneud ag adrannau 174 i 176 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ac Atodlen 8 iddi(**2**).

*Edwina Hart*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

19 Mai 2010

(**1**) 2008 p.14.
(**2**) 2006 p.42.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ar 21 Mai 2010 ddarpariaethau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 ("y Ddeddf") sy'n ymwneud â chyllido gwariant ar wasanaethau fferyllol cymunedol a ddarperir fel rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Dyma'r prif newidiadau: yn gyntaf, y bydd cyllid ar gyfer gwasanaethau fferyllol cymunedol a oedd gynt wedi ei ddal yn ganolog yn dod yn rhan o'r dyraniadau a roddir i Fyrddau Iechyd Lleol; ac yn ail, y rhoddir pwerau i Weinidogion Cymru i ddynodi unrhyw elfen o'r gydnabyddiaeth a delir gan Fyrddau Iechyd Lleol ar gyfer gwasanaethau fferyllol cymunedol ac nad yw'n elfen sydd i'w phriodoli i gost cyffuriau. Mecanwaith yw dynodiad sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru reoli'r ffordd y dyrennir cyllido elfen ddynodedig rhwng Byrddau Iechyd Lleol.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*Nodyn am y gorchmynion cychwyn blaenorol*

Cafodd darpariaethau canlynol y Ddeddf eu dwyn i rym o ran Cymru gan orchmynion cychwyn a wnaed gan Weinidogion Cymru cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

| *Y ddarpariaeth* | *Y dyddiad cychwyn* | *O.S. rhif* |
|---|---|---|
| a.148 | 19 Ebrill 2010 | 2010/989 (Cy.98) |
| a.147 | 6 Ebrill 2009 | 2009/631 (Cy.57) |
| a.166 (i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan 5 o Atodlen 15) | 6 Ebrill 2009 | 2009/631 (Cy.57) |
| Atodlen 13 | 6 Ebrill 2009 | 2009/631 (Cy.57) |
| Rhan 5 o Atodlen 15 | 6 Ebrill 2009 | 2009/631 (Cy.57) |